

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	27 Ebrill 2021
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - GWESTY PLAS WEUNYDD, LLECHWEDD
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Gwesty Plas Weunydd, Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, LL41 3NB gan yr ymgeisydd Michael Stuart Bewick. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer gwesty sydd wedi'i leoli ger ffin atyniad twristiaid Llechwedd.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol, a cherddoriaeth byw ar yr eiddo, a cherddoriaeth wedi recordio ar, ac oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd sylwadau ar y cais, a cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawdu i amodau gwarchod y cyhoedd a'r Heddlu. Cytunwyd i gwtogi oriau cerddoriaeth wedi'i recordio y tu allan i'r eiddo, ac i'r amod o gyflwyno rhybudd digwyddiad dros dro ac i asesu yr angen i gyflawni goruchwyliwr drysau pan fo achlysur.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

Oriau Agor / Opening Hours:	Dydd Sul/Sunday	07:00	-	23:00
	Dydd Llun/Monday	07:00	-	23:00
	Dydd Mawrth/Tuesday	07:00	-	23:00
	Dydd Mercher/Wednesday	07:00	-	23:00
	Dydd Iau/Thursday	07:00	-	23:00
	Dydd Gwener/Friday	07:00	-	23:00
	Dydd Sadwrn/Saturday	07:00	-	23:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG			
Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do :: Indoors	Dydd Sul/Sunday	12:00	-	23:00
	Dydd Llun/Monday	12:00	-	23:00
	Dydd Mawrth/Tuesday	12:00	-	23:00
	Dydd Mercher/Wednesday	12:00	-	23:00
	Dydd Iau/Thursday	12:00	-	23:00
	Dydd Gwener/Friday	12:00	-	23:00
	Dydd Sadwrn/Saturday	12:00	-	23:00

Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored : Indoors and Outdoors	Dydd Sul/Sunday	11:00	-	23:00
	Dydd Llun/Monday	11:00	-	23:00
	Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	23:00
	Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	23:00
	Dydd Iau/Thursday	11:00	-	23:00
	Dydd Gwener/Friday	11:00	-	23:00
	Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	23:00
Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo : On the Premises	Dydd Sul/Sunday	11:00	-	23:00
	Dydd Llun/Monday	11:00	-	23:00
	Dydd Mawrth/Tuesday	11:00	-	23:00
	Dydd Mercher/Wednesday	11:00	-	23:00
	Dydd Iau/Thursday	11:00	-	23:00
	Dydd Gwener/Friday	11:00	-	23:00
	Dydd Sadwrn/Saturday	11:00	-	23:00

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Gweithredir System TCC, a bydd recordiadau o droseddau ar gael i swyddogion yr Heddlu. Adroddir unrhyw trosedd ac anrhefn i'r Heddlu a bydd cyfleuster diogel i ddiogelu cyffuriau i'r Heddlu gasglu.
- Cynhelir polisi her 25 gwerthiant alcohol ac anogwyd yfed yn gyfrifol
- Bydd staff ar gael 24 awr a bydd porthor nos yn diogelu drysau ac allanfeydd. Bydd y drws ffrynt yn cael ei gloi rhwng 11.y.h a 7.y.b, gyda mynediad i breswylwyr yn unig.
- Diogelir mynediad i wasanaethau brys, a bydd diffoddwyr tan wedi gwasanaethu.
- Ni fydd cludiant nwyddau cyn 8y.b. ac ar ôl 8y.h a bydd drysau a ffenestri wedi cau pan fydd adloniant
- Rhaid i blant o dan 16 fod o dan oruchwyliaeth eu rhieni

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Gwarchod y Cyhoedd	Sylwadau ac amodau
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau ac amodau

3.1 Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd sylwadau ac argymhelliad amodau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd. Cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawdu drwy cwtogi oriau chwarae cerddoriaeth oddi ar yr eiddo am 9y.h. ac i rhoid cais rhybudd digwyddiad dros dro, os yn bwriadu cynnal digwyddiad ar ôl 11y.h. Cytunodd hefyd i peidio gwagio biniau boteli ac ailgylchu ar ôl 9:30y.h.

3.2 Heddlu Gogledd Cymru

Cytunodd yr ymgeisydd i'r amod o gynnal asesiad risg ac i gyflogi goruchwylwyr drysau os bernir or asesiad risg fod angen hynny, neu ar unrhyw adeg arall ar gais a chytundeb yr Heddlu.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda Adran Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.